Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Y Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)**

**Dyddiad:** **20 Medi 2010**

**Gan:** **Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Mae'r Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) wedi'i osod heddiw.

Bydd y Mesur arfaethedig yn gwneud newidiadau y bwriedir iddynt wella safonau diogelwch cerbydau modur i'w defnyddio i ddarparu cludiant dan gontract i ddysgwyr. Bydd y pwerau fframwaith yn y Mesur yn ein galluogi ni, drwy'r Rheoliadau, i osod ystod eang o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran safonau diogelwch ar fysiau ysgol sydd ganddynt o dan gontract.

Mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth i Reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â'r canlynol:

(i) disgrifiadau o gerbydau y caniateir eu defnyddio yn gludiant i ddysgwyr (*Adran 1 o'r Mesur arfaethedig*)
(ii) recordio delweddau gweledol neu sain ar gludiant i ddysgwyr *(Adran 2)*
(iii) asesiadau risg diogelwch o gludiant i ddysgwyr a ddarperir neu fel arall a sicrheir gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir (*Adran* 3)
(iv) camau i'w cymryd gan awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod gyrwyr cerbydau a ddefnyddir i ddarparu cludiant i ddysgwyr yn cael hyfforddiant priodol (*Adran 4*)
(v) darparu goruchwylwyr ar gludiant i ddysgwyr (*Adran 5*)
(vi) cosbi a gorfodi (*Adrannau 6-11 ac Atodlen A1*)

Byddaf yn gwneud datganiad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn yfory er mwyn cyflwyno'r Mesur arfaethedig.